


Cronfa Bensiynau Clwyd

Strategaeth Lywodraethu

Medi 2026



Tudalen Cynnwys

Cyflwyniad a Phwrpas	3
Nodau ac Amcanion	3
Cefndir y Trefniadau Llywodraethu.....	4
Cygnor Sir y Fflint	5
Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd	5
Uwch Swyddog CPLIL.....	6
Unigolyn Annibynnol	7
Bwrdd Pensiwn.....	7
Partneriaeth Pensiwn Cymru	8
Polisiâu i Gefnogi Llywodraethu'r Gronfa	10
Hyfforddiant	10
Gwrthdaro Buddiannau.....	10
Rheoli Risg	10
Polisiâu Eraill	11
Safonau'r Gymraeg.....	11
Monitro Llywodraethu Cronfa Bensiynau Clwyd	11
Risgiau Llywodraethu Allweddol	14
Cymeradwyo, Adolygu ac Ymgynghori.....	15
Rhagor o Wybodaeth	15
Atodiad A: Matrics Rolau a Chyfrifoldebau	16
Atodiad B: Polisi Tâl a Threuliau.....	17
Atodiad C: Gweithdrefn Ymddiswyddo a Diswyddo	19
Atodiad D: Rolau a Swyddogaethau Dirprwyedig Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd	21
Atodiad E: Rôl yr Uwch Swyddog CPLIL.....	25
Atodiad F: Cyfrifoldebau Cyrff Partneriaeth Pensiwn Cymru	26
Atodiad G: Gofynion Deddfwriaethol	28
Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013	28
Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Cyfuno, Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2026.....	29
Canllawiau Statudol.....	30

Cyflwyniad a Phwrpas

Cyngor Sir y Fflint (y Cyngor) yw'r Awdurdod Gweinyddu a'r Rheolwr Cynllun sy'n gyfrifol am gynnal a rheoli Cronfa Bensiynau Clwyd (y Gronfa) ar ran ei budd-ddeiliaid: aelodau'r cynllun a chyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa. Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u nodi yn bennaf yn y rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Y ddogfen hon yw'r Strategaeth Lywodraethu ar gyfer y Gronfa a baratowyd i fodloni gofynion Rheoliadau CPLIL.

Pwrpas y Strategaeth hon yw disgrifio fframwaith lywodraethu'r Gronfa, trefniadau gwneud penderfyniadau, strwythur atebolrwydd a rheolyddion llywodraethu, ac i ddangos sut mae'r trefniadau hyn yn cefnogi llywodraethu, gweinyddu a buddsoddi effeithiol ac effeithlon y Gronfa er budd aelodau'r cynllun, cyflogwyr a budd-ddeiliaid eraill.

Nodau ac Amcanion

Datganiad Cenhadaeth ein yw:

- Byddwn yn cael ein hadnabod fel sefydliad blaengar, ymatebol, rhagweithiol a phroffesiynol sy'n darparu gwasanaeth ardderchog sy'n canolbwyntio ar y cwsmeriaid, sydd ag enw da ac sy'n gredadwy, i'n holl gwsmeriaid.
- Byddwn wedi gwreiddio diwylliant corfforaethol o ymwybyddiaeth risg a llywodraethu ariannol, a byddwn yn darparu gwasanaethau nodedig o'r safon uchaf gyda'r adnoddau sydd ar gael i ni.
- Byddwn yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid, gan ganolbwyntio ar atebion, gydag ymagwedd sy'n credu yn ein gallu i gyflawni.

Mewn perthynas â llywodraethu'r Gronfa, ein nod fydd:


- gweithredu er budd pennaf aelodau a chyflogwyr y Gronfa
- sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith, i hwyluso gwneud penderfyniadau deallus, a gefnogir gan gyngor, polisïau a strategaethau priodol
- sicrhau bod y Gronfa Bensiynau yn cael ei rheoli, a'r gwasanaethau'n cael eu darparu, gan bobl sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd priodol
- gweithredu'n onest a bod yn atebol i'n budd-ddeiliaid am ein penderfyniadau, gan sicrhau eu bod yn gadarn a bod sail dda iddynt
- deall a monitro risg
- ymdrechu i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth briodol a chanllawiau statudol, a gweithredu yn ysbryd canllawiau perthnasol eraill ac arweiniad arfer orau
- mynegi'n glir beth yw ein hamcanion a sut yr ydym yn bwriadu cyflawni'r amcanion hynny trwy gynllunio busnes, a mesur a monitro llwyddiant yn barhaus
- sicrhau bod cyfrinachedd, uniondeb a hygyrchedd data'r Gronfa, ei systemau a'i gwasanaethau yn cael eu gwarchod a'u cynnal
- sicrhau bod ein cronfa asedau'n gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon i gefnogi gweithrediad llwyddiannus o strategaeth fuddsoddi'r Gronfa

Cefndir y Trefniadau Llywodraethu

Fel yr Awdurdod Gweinyddu a Rheolwr Cynllun y Gronfa, mae'r Cyngor yn gyfrifol am sefydlu fframwaith lywodraethu priodol ar gyfer rheoli a goruchwyllo'r Gronfa. Yn unol â [Chyfansoddiad y Cyngor](#)¹, mae cyfrifoldeb ar gyfer mwyafrif swyddogaethau'r gronfa bensiynau wedi cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau neu Uwch Swyddog CPLIL. Mae'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau wedi dirprwyo mwy o'i gyfrifoldebau i'r Uwch Swyddog CPLIL a'r Gronfa Asedau. Darperir goruchwyliaeth a chefnogaeth trwy'r Bwrdd Pensiynau Lleol, Unigolyn Annibynnol ac ymgynghorwyr. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ar rolau, cyfrifoldebau a dirprwyaeth yng Nghyfansoddiad y Cyngor, ac mae wedi'i grynhoi yn Atodiad A. Ar ddyddiad cyhoeddi'r Strategaeth, nid ydym wedi derbyn Canllawiau Statudol ar y Strategaeth Llywodraethu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ond credir bod y dirprwyaethau sydd mewn lle yn gyson gyda'r hyn sy'n ofynnol yn y Rheoliadau. Bydd y Strategaeth yn cael ei adolygu pan fydd y canllawiau statudol yn cael eu cyhoeddi er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae tâl cydnabyddiad a'r ffioedd sy'n daladwy i bawb sydd ynghlwm rheoli'r Gronfa (gan gynnwys y rhai a nodir yn benodol isod) wedi'u nodi yn Atodiad B. Gall Unigolion neu Sefydliadau sy'n rhan o reoli'r Gronfa ymddiswyddo neu gael eu tynnu yn unol â'r darpariaethau ym mholisi'r Gronfa ac fel y nodir yn Atodiad C.

Dangosir strwythur llywodraethu'r Cyngor ar gyfer materion Cronfa Bensiynau isod:



¹ Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg

Cygnor Sir y Fflint

Fel yr Awdurdod Gweinyddu ar gyfer y Gronfa a Chyfranddaliwr y Gronfa Asedau, mae Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol am ddirprwyo ei gyfrifoldebau fel Rheolwr Cynllun i'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau. Hefyd mae nifer o rolau a chyfrifoldebau allweddol mewn perthynas â'r Gronfa ar gyfer Uwch Swyddogion y Cyngor.

Prif Swyddog Gweithredol

Y Prif Swyddog Gweithredol yw uwch swyddog pennaf y Cyngor, ac o ganlyniad mae ganddo'r cyfrifoldeb o ddarparu holl swyddogaethau'r Cyngor gan gynnwys sicrhau bod y Gronfa'n cael ei rheoli'n iawn. O dan Gyfansoddiad y Cyngor, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Gweithredol benodi Uwch Swyddog CPLIL. Mae Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog Gweithredol.

Rheolwr Cyllid Corfforaethol

Mae rôl y Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) wedi'i ddynodi i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol. Er bod gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd gyfrifoldeb uwch i sicrhau bod y Gronfa'n cael ei rheoli a'i hariannu'n briodol ar draws holl swyddogaethau CPLIL, mae'r Swyddog adran 151 yn cynnal y cyfrifoldeb statudol ar gyfer gweinyddiaeth briodol materion ariannol y Cyngor, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r Gronfa. Mae cyfrifoldebau Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a'r Swyddog Adran 151 wedi'u nodi'n ffurfiol o fewn Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn atal gorgyffwrdd cyfrifoldebau. Mae hyn yn sicrhau bod y Gronfa'n parhau i gydymffurfio gyda'r gofynion statudol wrth alluogi Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd i barhau fel yr unig unigolyn cyfrifol ar gyfer cydlynu holl weithgareddau'n ymwneud â phensiynau o fewn yr awdurdod.

Prif Swyddog, Llywodraethu

Mae rôl y Swyddog Monitro wedi'i ddynodi i'r Prif Swyddog, Llywodraethu. Er bod gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd gyfrifoldeb uwch i sicrhau bod strwythur Llywodraethu'r Gronfa yn addas ac yn cydymffurfio â'r Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol sy'n gymwys i'r Gronfa, nid oes ganddynt gyfrifoldeb ar gyfer sicrhau bod hyn wedi'i gofnodi'n gywir o fewn cyfansoddiad y Cyngor. O ganlyniad, bydd y Prif Swyddog, Llywodraethu yn darparu cyngor, canllawiau a chefnogaeth i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau os oes angen newid Cyfansoddiad y Cyngor. Bydd y Prif Swyddog, Llywodraethu hefyd yn darparu cyngor i'r Pwyllgor ar faterion Cyfreithiol, lle bo'n briodol.

Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd

Mae mwyafrif o swyddogaethau'r Rheolwr Cynllun neu Awdurdod Gweinyddu wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau. Mae hyn yn sicrhau bod un corff yn gyfrifol am lywodraethu, gweinyddu a buddsoddi'r Gronfa yn effeithiol ac effeithlon. Gan fod y Pwyllgor hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o wahanol grwpiau, mae holl aelodau'r Cynllun a chyflogwyr sy'n cymryd rhan yn cael eu cynrychioli, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er lles gorau holl fudd-ddeiliaid. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gyfarwyddo Pennaeth

Cronfa Bensiynau Clwyd o ran sut i weithredu yn eu rôl fel Cyfranddaliwr cwmni rheoli asedau.

Gweler y rolau penodol fel yr amlinellir yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn Atodiad D. Gall y Pwyllgor hefyd ddirprwyo ystod gyfyngedig o'i swyddogaethau i un neu fwy o swyddogion Cyngor Sir y Fflint.

Ni chaiff unrhyw faterion yn ymwneud â chyfrifoldebau Cyngor Sir y Fflint fel cyflogwr sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Clwyd eu dirprwyo i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau.

Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yn cyfarfod o leiaf bob chwarter ac mae'n cynnwys naw aelod fel a ganlyn:

- Pump o Gyngorwyr Cyngor Sir y Fflint fel y'u pennir gan y Cyngor.
- Pedwar aelod cyfetholedig sy'n cynnwys:
 - Un Cynghorydd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a bennir gan y Cyngor.
 - Un Cynghorydd o Gyngor Sir Ddinbych, a bennir gan y Cyngor.
 - Un Cynrychiolydd ar ran Cyflogwyr eraill y Cynllun² (nid cyrff derbyn) yn y Gronfa, wedi'i benodi yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd.
 - Un Cynrychiolydd aelodau cynllun Cronfa Bensiynau Clwyd, a benodir yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd.

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn caniatáu dirprwyon enwebedig, ar yr amod eu bod yn bodloni Strategaeth gwybodaeth a sgiliau'r Gronfa.

Penodir Ymgynghorwyr y Cyngor yn flynyddol, tra bod cylch gorchwyl ar gyfer aelodau cyfetholedig yn amrywio o bedair i chwe blynedd. Mae'n bosib i aelodau gael eu hailbenodi am dymhorau pellach. Mae gan bob aelod hawl cyfartal i bleidleisio. Rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor fod yn aelod o Gyngor Sir y Fflint a bydd yn cael ei benodi gan y Cyngor llawn yn flynyddol. Rhaid i Is-gadeirydd y Pwyllgor hefyd fod yn aelod o Gyngor Sir y Fflint a bydd yn cael ei benodi gan y Pwyllgor Cronfa Bensiynau yn flynyddol.

Uwch Swyddog CPLIL

Mae'n ofynnol i ni benodi Uwch Swyddog CPLIL, fel unigolyn cyfrifol ar gyfer rheoli'r Gronfa. Dynodir a phenodir Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd fel yr Uwch Swyddog CPLIL³ yn ôl gofyniad Cyfansoddiad y Cyngor. Mae cyfrifoldebau'r Uwch Swyddog CPLIL wedi'i grynhoi yn Atodiad E, ac mewn nifer o achosion mae'n ofynnol i'r Uwch Swyddog CPLIL ymgynghori gyda'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau cyn gwneud penderfyniad, gan sicrhau bod y rhai sydd wedi'u dirprwyo gan y Cyngor i reoli'r Gronfa yn parhau i fod y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb i weithredu fel

² Fel y diffinnir yn Atodlen 2 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013

³ At ddibenion y Strategaeth hon, mae unrhyw gyfeiriad at Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd yn cynnwys Uwch Swyddog y CPLIL hefyd.

cyfranddaliwr y cwmni rheoli buddsoddiadau cronfa asedau i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd.

Gall yr Uwch Swyddog CPLIL enwebu Dirprwy Uwch Swyddog i ryddhau eu dyletswyddau yn ôl yr angen.

Fel Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, bydd y rôl hefyd yn golygu Cadeirio cyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli, gan gynnwys uwch swyddogion y Gronfa, i ddarparu cyngor a chynnig argymhellion i'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau a chyflawni materion sydd wedi'u dirprwyo iddynt gan y Pwyllgor Cronfa Bensiynau.

Unigolyn Annibynnol

Mae'n ofynnol i ni benodi Unigolyn Annibynnol. Mae hyn yn helpu i gryfhau llywodraethu a gwneud penderfyniadau ar draws ein swyddogaethau, trwy ddarparu arbenigedd proffesiynol annibynnol, cefnogaeth a her adeiladol i'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau a Phennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd. Mae'r Gronfa yn cydnabod nad yw penodi Unigolyn Annibynnol yn disodli'r angen ar gyfer ymgynghorwyr proffesiynol eraill lle bod angen.

Mae'r Unigolyn Annibynnol yn craffu ar bolisiâu a strategaethau posibl y Gronfa, cyngor a ddarperir gan ymgynghorwyr proffesiynol eraill y Gronfa, perfformiad y Gronfa ar draws holl feysydd ac yn cefnogi adolygiadau llywodraethu.

Mae penodiad yr Unigolyn Annibynnol yn cael ei ddirprwyo i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a bydd yn dilyn proses gaffael briodol. Mae rhai gofynion y swydd hon wedi'u nodi yn y Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol cysylltiedig a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Bwrdd Pensiwn

Mae'n ofynnol i ni gael Bwrdd Pensiwn lleol sy'n ein cynorthwyo ni gyda:

- sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun, a'r gofynion a osodir mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan Y Rheoleiddiwr Pensiynau
- sicrhau y caiff y Gronfa Bensiynau ei llywodraethu a'i gweinyddu'n effeithiol ac effeithlon

Nid oes gan y Bwrdd Pensiwn unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau, ac yn hytrach mae'n darparu goruchwyliaeth dros y Gronfa yn annibynnol o'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau. Nid yw'r Bwrdd Pensiwn yn bwyllgor yr awdurdod lleol, fodd bynnag mae Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys Protocol Bwrdd Pensiwn sy'n diffinio cylch gorchwyl a rôl y Bwrdd Pensiwn o fewn y Cyngor.

Mae'r Bwrdd Pensiwn yn cwrdd o leiaf ddwywaith a dim mwy na phedair gwaith y flwyddyn, ac mae'n cynnwys pum aelod, fel a ganlyn:

- Dau Gynrychiolydd ar ran Cyflogwyr y Cynllun

- Dau Gynrychiolydd Aelod y Cynllun, un a enwebir gan y cyd-undebau llafur ac un sy'n aelod o Gronfa Bensiynau Clwyd
- Un Aelod Annibynnol sy'n gweithredu fel cadeirydd y Bwrdd Pensiwn

Mae gan bob aelod o'r Bwrdd Pensiwn, heb gynnwys yr Aelod Annibynnol, hawliau pleidleisio unigol, ond y disgwyl yw y bydd y Bwrdd Pensiwn, cyn belled ag y bo modd, yn dod i gonsensws. Mae wedi cael ei ddylunio er mwyn sicrhau bod safbwynt y Bwrdd Pensiwn, ac felly safbwyntiau aelodau a Chyflogwyr y Cynllun yn cael eu hystyried fel safbwynt awdurdodol gan y Pwyllgor Cronfa Bensiynau a Phennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd.

Partneriaeth Pensiwn Cymru

Mae Rheoliadau CPLIL yn cynnwys mandad i gronni asedau CPLIL i "Gronfeydd Asedau" ac mae'r wyth cronfa CPLIL yng Nghymru wedi cytuno i ffurfio un Gronfa Asedau.

Mae'n ofynnol i'n Cronfa Asedau gynnwys cwmni rheoli buddsoddiadau Awdurdodedig yr FCA sy'n darparu'r gwasanaethau canlynol:

- Ein cyngori ar ein strategaeth fuddsoddi
- Gweithredu ein strategaeth fuddsoddi ddewisol
- Rheoli a goruchwyllo ein holl asedau a fuddsoddir

Rydym yn cadw'r cyfrifoldeb am osod y Strategaeth Fuddsoddi.

Rydym yn Gleient ac yn Gyfranddaliwr **Cwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru Cyfyngedig (Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC)** sy'n gweithredu fel y cwmni rheoli buddsoddiadau ar gyfer yr wyth cronfa CPLIL yng Nghymru. Rydym wedi dirprwyo cyfrifoldebau sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau i Gwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC, a byddwn yn derbyn cyngor buddsoddi gan Gwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC pan fo angen.

Mae gennym Gytundeb Gwasanaeth Cleient sy'n nodi telerau ein cyfranogiad yng Nghwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC, mae hyn yn cadarnhau cwmmpas y gwasanaethau sydd i'w darparu, y safonau gwasanaeth rydym yn ei dderbyn a'r ffioedd sydd angen i ni eu talu.

Ar wahân mae gennym Gytundeb Cyfranddaliwr sy'n nodi telerau ein cyfranogiad fel cyfranddaliwr Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn cynnal digon o oruchwyliaeth dros PPC i sicrhau bod ein penderfyniadau strategol yn cael eu darparu. Mae'r Cytundeb Cyfranddaliwr yn cynnwys nifer o faterion sydd wedi'u neilltuo i'r cyfranddaliwr. Mae'r materion hyn yn cynnwys cymeradwyo cynllun busnes a chyllideb Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC, a'r polisi cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer eu staff.

Er nad yw'n ofynnol o dan reoliad, mae ein Cronfa Asedau hefyd yn cynnwys strwythurau llywodraethu sydd wedi'u dylunio i sicrhau cydweithio ar draws yr wyth cronfa yng Nghymru sy'n cymryd rhan. Mae'r grwpiau hyn yn helpu i sicrhau bod goruchwyliaeth addas o'r cwmni rheoli buddsoddiadau, gan sicrhau bod y cwmni yn darparu'r perfformiad buddsoddi sy'n ofynnol ac yn ystyried gofynion ei gleientiaid a chyfranddalwyr yn ddigonol. Mae'r trefniadau llywodraethu hyn yn nodi'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau rhwng yr wyth cronfa sy'n cymryd

rhan, ac mae darpariaethau allweddol y cytundeb wedi'u cynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Y grwpiau allweddol a sefydlwyd o dan y Cytundeb Rhwng Awdurdodau yw:

Fforwm Cyfranddalwyr

Mae'r Fforwm Cyfranddalwyr wedi'i ddylunio i gryfhau llais y cyfranddalwyr gyda Chwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC, gan alluogi fforwm i drafod y cynigion a gyflwynir i'r cyfranddalwyr gan PPC.

Mae'n ofynnol i ni bleidleisio fel cyfranddalwyr yn unigol ar ôl ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau, ac felly ni all y Fforwm Cyfranddalwyr wneud penderfyniadau ar ein rhan. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer y Fforwm Cyfranddalwyr wedi'i nodi o fewn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau ac wedi'i grynhoi yn Atodiad F.

Mae'r Fforwm Cyfranddalwyr yn cwrdd bob chwarter o leiaf ac yn cynnwys un Swyddog o bob un o'r wyth cronfa sy'n cymryd rhan, fel y pennir gan y Gronfa honno.

Mae gan bob aelod hawl i bleidleisio.

Ein cynrychiolydd ar y Fforwm Cyfranddalwyr fydd Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd gyda'r Dirprwy Uwch Swyddog CPLIL yn gweithredu fel dirprwy pan fydd angen.

Cydbwyllgor Llywodraethu

Mae'r Cydbwyllgor Llywodraethu wedi'i ddylunio i gryfhau llais y cleientiaid gyda Chwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC a darparu llywodraethu a goruchwyliaeth ar ochr y cleient o'r trefniadau cronni. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer y Cydbwyllgor Llywodraethu wedi'i nodi o fewn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau ac wedi'i grynhoi yn Atodiad F.

Mae'r Cydbwyllgor Llywodraethu'n cyfarfod o leiaf bob chwarter ac mae'n cynnwys naw aelod fel a ganlyn:

- un aelod etholedig o bob un o'r wyth cronfa sy'n cymryd rhan
- un cynrychiolydd aelod cynllun cyfetholedig

Mae gan holl aelodau o'r Cydbwyllgor Llywodraethu, ac eithrio'r cynrychiolydd aelod y cynllun, hawliau pleidleisio. Mae Cadeirydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn newid ymysg yr wyth cronfa sy'n cymryd rhan yn flynyddol.

Mae nifer o faterion wedi'u neilltuo i bob cronfa sy'n cymryd rhan i'w cymeradwyo. Ar y materion hyn, dim ond argymhelliad gall y Cydbwyllgor Llywodraethu ei wneud i'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau. Mae'r materion hyn yn cynnwys cymeradwyo cynllun busnes a chyllideb ar gyfer y Cydbwyllgor Llywodraethu.

Ein cynrychiolydd ar y Cydbwyllgor Llywodraethu fydd Cadeirydd y Pwyllgor Cronfa Bensiynau gyda Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Cronfa Bensiynau yn gweithredu fel dirprwy pan fo angen.

Cefnogir y Cydbwyllgor Llywodraethu gan Weithgor Swyddogion sy'n cynnwys swyddogion o'r wyth cronfa sy'n cymryd rhan. Cytunir ar y swyddogion sy'n mynychu'r Gweithgor Swyddogion gan y Pwyllgor Cronfa Bensiynau.

Mae Cyngor Sir Gâr yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cefnogi, gweinyddu a llywodraethu i'r Fforwm Cyfranddalwyr, y Cydbwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion.

Polisiau i Gefnogi Llywodraethu'r Gronfa

Hyfforddiant

Rydym yn cydnabod bod rheolaeth, gweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau'n effeithiol yn cael ei gyflawni pan mae gan y sawl sy'n gysylltiedig y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol yn unig. Mae'n ofynnol i ni baratoi a chyhoeddi Strategaeth Hyfforddi sy'n nodi ein dull i sicrhau bod y rhai sy'n rheoli'r Gronfa â'r wybodaeth a sgiliau priodol. Enw'r Strategaeth yw'r Strategaeth Gwybodaeth a Sgiliau a gellir dod o hydd iddi ar ein gwefan:

www.cronfabensiynauclwyd.org.uk

Yn ogystal â hyn, yn unol â Chytundeb Rhwng Awdurdodau Partneriaeth Pensiwn Cymru, mae'n ofynnol i'r Cydbwyllgor Llywodraethu baratoi, cynnal a glynu at **Strategaeth Hyfforddi**, sydd i'w gweld ar eu gwefan www.partneriaethpensiwncymru.org.

Gwrthdaro Buddiannau

Mae gwrthdaro buddiannau wedi bodoli erioed ar gyfer y rhai sydd â chyfrifoldebau awdurdod gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yn ogystal ag ar gyfer ymgynghorwyr cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'n ofynnol i ni baratoi a chyhoeddi Polisi Gwrthdaro Buddiannau sy'n nodi ein dull i reoli digwyddiadau o Wrthdaro Buddiannau. Gellir gweld y Polisi ar ein gwefan: www.cronfabensiynauclwyd.org.uk

Yn ogystal â hyn, yn unol â Chytundeb Rhwng Awdurdodau Partneriaeth Pensiwn Cymru, mae'n ofynnol i'r Cydbwyllgor Llywodraethu baratoi, cynnal a glynu at Bolisi Gwrthdaro Buddiannau, sydd i'w gweld ar eu gwefan www.partneriaethpensiwncymru.org.

Rheoli Risg

Rydym yn cydnabod fod rheoli risg yn effeithiol yn elfen hanfodol o lywodraethu da yn y CPLIL. Fe nodom ein dull i reoli risg yn y Polisi Rheoli Risg, sydd i'w weld ar ein gwefan: www.cronfabensiynauclwyd.org.uk

Yn ogystal â hyn, yn unol â Chytundeb Rhwng Awdurdodau Partneriaeth Pensiwn Cymru, mae'n ofynnol i'r Cydbwyllgor Llywodraethu baratoi, cynnal a glynu at Bolisi Risg Buddiannau, sydd i'w gweld ar eu gwefan www.partneriaethpensiwncymru.org.

Polisiâu Eraill

Mae gan y Gronfa hefyd nifer o bolisiau llywodraethu eraill, sy'n ofynion statudol neu'n unol ag arferion gorau. Mae'r rhain yn cynnwys y Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth, Polisi Parhad Busnes, Strategaeth Seibr, Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Gweithdrefn Cofnodi Achosion o Dor-Cyfraith. Hefyd mae materion llywodraethu wedi'u codi mewn strategaethau eraill sy'n ymwneud â Chyllid, Buddsoddiad, Gweinyddu a Chyfathrebu.

Gellir gweld yr holl bolisiau hyn ar ein gwefan: www.cronfabensiynauclwyd.org.uk

Yn ogystal â hyn, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn paratoi ac yn cynnal nifer o bolisiau llywodraethu eraill, y gellir eu gweld ar eu gwefan www.partneriaethpensiwncymru.org.

Safonau'r Gymraeg

Rydym wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddwn yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal, wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan y Cyngor neu drwy gysylltu â Phennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd.

Monitro Llywodraethu Cronfa Bensiynau Clwyd

Bydd ein hamcanion llywodraethu yn cael eu monitro fel a ganlyn:

Amcan	Trefniadau Monitro
Sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith, i hwyluso gwneud penderfyniadau deallus, a gefnogir gan gyngor, polisiâu a strategaethau priodol.	• Mae'r Unigolyn Annibynnol yn ymgymryd ag adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ein trefniadau llywodraethu, a bydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor, a'i gyhoeddi. • Mae'r Bwrdd Pensiwn yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol. • Yn unol â gofynion y Rheoliad cynhelir Adolygiad Llywodraethu Annibynnol teirblwydd, a gyflawnir gan ddarparwr annibynnol.
Sicrhau bod y Gronfa Bensiynau yn cael ei rheoli a'r gwasanaethau'n cael eu darparu gan bobl sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd priodol.	• Mae Strategaeth Gwybodaeth a Sgiliau ar waith ynghyd â monitro ac adrodd pob hyfforddiant gan aelodau'r Pwyllgor Pensiynau, aelodau'r Bwrdd Pensiwn a swyddogion allweddol yn unol â'r Polisi Gwybodaeth a Sgiliau. • Mae gan y Pwyllgor Cydlywodraethu Bolisi Hyfforddiant ar waith gyda threfniadau monitro yn unol â'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

Amcan	Trefniadau Monitro
Gweithredu'n onest a bod yn atebol i'n budd-ddeiliaid am ein penderfyniadau, gan sicrhau eu bod yn gadarn a bod sail dda iddynt.	• Mae Polisi Datgan Cysylltiad ar waith, ynghyd â threfniadau adrodd a monitro'r gofrestr cysylltiadau, yn unol â'r Polisi Datgan Cysylltiad. • Estynnir gwahoddiad i gyflogwyr o fewn y Gronfa, ynghyd â chynrychiolwyr yr undeb, i Gyfarfod Blynyddol. Mae mynychwyr yn derbyn cyflwyniad ac yn cael cyfle i ofyn cwestiynau ar drefniadau llywodraethu'r Gronfa. • Mae'r Unigolyn Annibynnol yn cyflawni adolygiad blynyddol a gall hyn hefyd gynnwys ystyried penderfyniadau. • Mae'r Bwrdd Pensiwn yn paratoi ac y cyhoeddi adroddiad blynyddol, a all hefyd gynnwys sylwadau ar wneud penderfyniadau. • Mae'r Cydbwyllgor Llywodraethu PPC yn paratoi cynllun busnes blynyddol sy'n cael ei gyflwyno gerbron Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd i'w gymeradwyo, yn unol â'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau.
Deall a monitro risg.	• Mae Polisi Risg a chofrestr ar waith, ac mae trefniadau monitro ac adrodd risgiau yn cael eu cynnal yn unol â'r Polisi Risg. • Ystyriaeth barhaus o risgiau allweddol yng nghyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau a'r Bwrdd Pensiwn.

Amcan	Trefniadau Monitro
Ymdrechu i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth briodol a chanllawiau statudol, a gweithredu yn ysbryd canllawiau perthnasol eraill ac arweiniad arfer orau.	• Ystyrir ein trefniadau Llywodraethu gan Archwilyr Allanol a Mewnol. Adroddir pob Adroddiad Archwilio Allanol a Mewnol i'r Pwyllgor. • Bydd Darparwr Annibynnol yn cyflawni Adolygiad Llywodraethu Annibynnol o holl bolisiau swyddogaethau llywodraethu bob tair blynedd o leiaf. • Rydym yn cynnal gwiriad cydymffurfio, yn flynyddol o leiaf, yn erbyn Cod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau. • Rydym yn cynnal cofnod o bob toriad cyfraith yn unol â'n gweithdrefn torri'r gyfraith sy'n cael ei adrodd a'i fonitro fel yr amlinellir yn y weithdrefn honno. • Mae'r Unigolyn Annibynnol yn cyflawni adolygiad blynyddol a gall hyn hefyd gynnwys ystyriaeth o faterion cydymffurfio. • Mae'r Bwrdd Pensiwn yn paratoi ac y cyhoeddi adroddiad blynyddol, sydd efallai'n cynnwys sylwadau ar faterion cydymffurfio. • Mae gan y Cydbwyllgor Llywodraethu PPC Bolisi Torri'r Gyfraith a Gwallau ar waith gyda threfniadau monitro yn unol â'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau.
Mynegi'n glir beth yw ein hamcanion a sut yr ydym yn bwriadu cyflawni'r amcanion hynny trwy gynllunio busnes, a mesur a monitro llwyddiant yn barhaus.	• Mae pob strategaeth a pholisi yn cynnwys cyfeiriad ar sut y caiff amcanion eu monitro. • Monitro parhaus yn erbyn amcanion allweddol yng nghyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau. • Monitro targedau'r cynllun busnes yn barhaus yng nghyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau. • Mae diweddariadau bob chwarter a blynyddol yn erbyn cynllun busnes ac amcanion y Cydbwyllgor Llywodraethu PPC wedi'u darparu yn unol â'r Cytundeb rhwng Awdurdodau.

Amcan	Trefniadau Monitro
Sicrhau y caiff cyfrinachedd, uniondeb a hygyrchedd ein data, systemau a gwasanaethau eu gwarchod a'u cynnal.	- Mae pob toriad diogelwch gwybodaeth sy'n ymwneud â data yn cael ei ddosbarthu'n annïogel gennym ni, yn cael eu cofnodi a'u hadolygu. - Mae pob digwyddiad arall sy'n effeithio ar gyfrinachedd, uniondeb a hygyrchedd data, systemau neu wasanaethau yn cael eu cofnodi a'u hadolygu. - Mae gennym gynllun ymateb i ddigwyddiad seibr ar waith. - Mae gennym gynllun parhad busnes ac amserlen profi ar waith (gan gynnwys profi digwyddiad seibr) ac sy'n cael ei ddilyn. - Mae pob aelod o'n staff wedi dilyn hyfforddiant Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn unol â rhaglen hyfforddiant Cyngor Sir y Fflint
Sicrhau bod ein cronfa asedau'n gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon i gefnogi gweithrediad llwyddiannus o strategaeth fuddsoddi'r Gronfa.	- Mae Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd wedi pleidleisio ar holl faterion cyfranddalwyr a godwyd gan y Cwmni - Mae'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau wedi cael eu hymgyngori ar holl faterion cyfranddalwyr cyn unrhyw bleidlais.

Risgiau Llywodraethu Allweddol

Dyma'r prif risgiau llywodraethu yr ydym yn eu monitro'n barhaus.

- Penderfyniadau'r Swyddog neu Bwyllgor Cronfa Bensiynau yn arwain at ganlyniadau anfanteisiol i'r Gronfa.
- Penderfyniadau amhriodol yn cael eu gwneud, penderfyniadau nad ydynt yn cael eu rhoi ar waith neu amcanion nad ydynt yn cael eu cyflawni, unai yn sgil diffyg adnodd gyda gwybodaeth a hyfforddiant, cyfyngiadau sydd ar y Gronfa yn sgil bod yn rhan o'r Cyngor neu fethiant o ran cyflenwr y Gronfa.
- Goruchwyliaeth aneffeithiol o weithgareddau'r Gronfa, unai gan y Bwrdd Pensiwn neu gan archwylwyr allanol a mewnol.
- Y posibilrwydd o ddylanwad a newidiadau allanol (megis newidiadau i'r cynllun, ad-drefnu cenedlaethol, seiberdrosedd a chyfuno asedau) i arwain at amcanion a chyfrifoldebau cyfreithiol y Gronfa ddim yn cael eu bodloni neu eu cyfaddawdu.
- Bod y Gronfa'n cael ei heffeithio'n andwyol gan dwyll gan gynnwys llygredigaeth, llwgrwobrwyo a gwyngalchu arian.
- Y Gronfa heb fynediad, neu fynediad cyfyngedig yn unig i systemau allweddol a ddefnyddir i reoli'r Gronfa.

Ymhob achos, os na fydd gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol, yn cael eu rheoli'n briodol, neu os na ddarperir hyfforddiant priodol i sicrhau bod y rhai sydd â'r dasg o reoli'r Gronfa yn deall eu cyfrifoldeb, mae mwy o siawns y bydd y risgiau hyn yn digwydd.

Hefyd, os oes methiant i drefniadau rheoli risg, gan olygu nad yw risgiau newydd yn cael eu hadnabod neu eu hystyried yn briodol, gall arwain at golled neu effaith niweidiol arall i'r Gronfa neu ei fudd-ddeiliaid.

Cymeradwyo, Adolygu ac Ymgynghori

Cymeradwywyd y fersiwn hwn o'r Polisi Llywodraethu gan Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd ar 16 Medi 2026. Bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n ffurfiol o leiaf bob tair blynedd neu'n gynharach os yw'r trefniadau llywodraethu neu faterion eraill ynddo yn galw am ail-ystyriaeth.

Cyn gwneud newidiadau sylfaenol i'r Strategaeth sy'n ymofyn cymeradwyaeth gan Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd, byddwn yn ymgynghori ag unigolion o'r fath fel y bo'n briodol.

Rhagor o Wybodaeth

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am unrhyw beth yn y Strategaeth Lywodraethu hon neu'n gysylltiedig â'r Strategaeth hon, cysylltwch â:

Phillip Latham, Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, Cyngor Sir y Fflint

E-bost: philip.latham@sirfflint.gov.uk

Rhif ffôn: 01352 702264

Ceir rhagor o wybodaeth am y Gronfa ar ei gwefan:

www.cronfabensiynaclwyd.org.uk

Ceir rhagor o wybodaeth am Bartneriaeth Pensiwn Cymru ar eu gwefan:

www.partneriaethpensiwncymru.org

Atodiad A: Matrics Rolau a Chyfrifoldebau

Maes	Tasg / Penderfyniad	Cyngor Sir y Fflint (Awdurdod Gweinyddu)	Pwyllgor y Gronfa Bensiynau	Pennaeth CBC (Uwch Swyddog CPLIL)	Unigolyn Annibynnol	Rheolwr Cyllid Corfforaethol (Adran 151)	Bwrdd Pensiynau Lleol	Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC	Fforwm Cyfranddalwyr PPC	Cydbwyllgor Llywodraethu PPC
Strwythur y Gronfa, dirprwyaethau a chymradwyo	Pennu dirprwyaeth i'r Pwyllgor ac Aelodaeth o'r Bwrdd	A	C	R	C	I	C	I		
	Sefydlu trefniadau llywodraethu'r Gronfa		A	R	C	I	C			
	Pennu dirprwyaethau i swyddogion		A	R	C		C			
	Cymeradwyo cytundeb rhwng awdurdodau	A	C	R			C			R
	Penodi Uwch Swyddog CPLIL	A	C				C			
Penodiadau	Penodi Unigolyn Annibynnol CPLIL		C	A		I	C			
	Penodi ymgynghorwyr a darparwyr gwasanaeth i'r Gronfa		A	R	C	I	I			
			A	R						
Rolau allweddol	Gweithredu fel Rheolwr y Cynllun		A	R	C		C			
	Gweithredu fel Cyfranddaliwr Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC a phleidleisio ar benderfyniadau cyfranddalwyr		C	A	C		C		C	
	Darparu cyngor, arweiniad a sicrwydd i'r Pwyllgor a'r Bwrdd	R	I	A	R	R	I	R		
Gweithrediad, amcanion, strategaethau a chyllideb y Gronfa	Pennu strwythur ac adnoddau'r Gronfa		A	A	C	I	C			
	Pennu trefniadau rheoli risg y Gronfa		A	R	C	I	C	C		
	Pennu strategaethau ac amcanion y Gronfa		A	R	C	I	C	C		R
	Pennu'r dull a ddefnyddir pan fo disgrisiwn gan y Gronfa		C	A	C		C			
	Cymeradwyo cynllun busnes a chyllideb y Gronfa		A	A	C	I	C	C		
	Cymeradwyo cynllun busnes a chyllideb Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC		C	A	C	I	C	R	C	
	Cymeradwyo cynllun busnes a chyllideb y Cydbwyllgor Llywodraethu		A	C	C	I	C	C		R
Monitro a chydymffurfiaeth	Cyhoeddi adroddiad blynyddol a chyfrifon y Gronfa		A	A	C	R	C	C		
	Darparu ymatebion i ymgynghoriadau perthnasol sy'n effeithio ar y Gronfa		A	R	C	I	C	C		C
	Sicrhau bod yr holl daliadau pensiwn, buddion a thaliadau eraill yn cael eu gwneud		A	R			C			
	Gwneud penderfyniadau ar weithgarwch Cyflogwyr, gan gynnwys bras-drosglwyddiadau		I	A	C		I			
	Monitro trefniadau llywodraethu a chydymffurfiaeth		I	A	C		I			
	Monitro perfformiad gweinyddol a chyfathrebu		I	A	C		I			
	Monitro'r sefyllfa gyllidol a lefelau risg		I	A	C		I			
	Monitro perfformiad buddsoddi		I	A	C		I			R
	Monitro llif arian a chyllideb y Gronfa		I	A			I	C		
	Monitro perfformiad gweithredol Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC		I	A	C		I		C	
	Gweithredu a monitro polisiau a strategaethau'r Gronfa		A	R	C		I	R		R

Cod	Rôl	Diffiniad
R	Cyfrifol (Responsible)	Yn cyflawni neu'n cydlynu'r gwaith sydd ei angen i gwblhau'r gweithgaredd.
A	Atebol (Accountable)	Gyda'r atebolrwydd terfynol ar gyfer y penderfyniad neu ganlyniad, a'r awdurdod i'w gymeradwyo.
C	Ymgynghorai	Yn darparu cyngor, arbenigedd, mewnbwn neu'n craffu cyn i'r gweithgaredd neu benderfyniad gael ei.
I	Hysbyswyd (Informed)	Yn cael eu hysbysu am y penderfyniad, cynnydd neu ganlyniad.

Atodiad B: Polisi Tâl a Threuliau

Mae'r Polisi hwn yn nodi'r egwyddorion a threfniadau ar gyfer rhoi tâl cydnabyddiaeth i unigolion a sefydliadau sy'n rhan o reoli'r Gronfa. Cafodd ei ddatblygu gan ystyried yr egwyddorion a nodwyd o fewn disgwyliadau Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau, fframwaith rheoleiddio Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'n trefniadau llywodraethu ni.

Mae'r Polisi'n gymwys i holl bartïon sy'n rhan o reoli'r Gronfa.

Egwyddorion Tâl Cydnabyddiaeth

Wrth bennu trefniadau tâl priodol, byddwn yn ystyried yr egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r tâl cydnabyddiaeth fod yn briodol i rôl, cyfrifoldebau, arbenigedd ac ymrwymiad amser sy'n berthnasol â'r swydd.
- Rhaid i'r tâl cydnabyddiaeth gefnogi llywodraethiant a rheolaeth effeithiol y Gronfa a bod yn gyson â'n hamcanion a fframwaith llywodraethu.
- Dylai tâl a threuliau gynrychioli gwerth am arian a bod yn gymesur â natur, graddfa a chymhlethdod y gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni.
- Dylai trefniadau tâl cydnabyddiaeth fod yn dryloyw, teg a gallu gwrthsefyll craffu cyhoeddus.
- Ni ddylai tâl cydnabyddiaeth annog cymryd risgiau gormodol neu ymddygiad sy'n anghyson â'n cyfrifoldebau llywodraethu, rheoli risg neu ymddiriedol.
- Dylai trefniadau tâl cydnabyddiaeth gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, gofynion cyfansoddiadol, trefniadau dan gontract a rhwymedigaethau caffael.

Pwyllgor Cronfa Bensiynau

Bydd aelodau o'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau, p'un ai ydynt yn aelodau etholedig y Cyngor neu aeloda cyfetholedig, yn derbyn unrhyw lwfansau, tâl cydnabyddiaeth neu ad-daliad treuliau, yn unol â'r darpariaethau yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac unrhyw bolisiâu cysylltiedig.

Bwrdd Pensiynau Lleol

Bydd aelodau o'r Bwrdd Pensiynau Lleol yn derbyn unrhyw dâl cydnabyddiaeth, lwfansau neu ad-daliad treuliau yn unol â thelerau eu penodiad ac fel y nodir fel rhan o BroTOCOL y Bwrdd Pensiynau o fewn Cyfansoddiad y Cyngor.

Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a Swyddogion y Gronfa

Bydd holl swyddogion y Gronfa gan gynnwys Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd yn derbyn tâl yn unol â strwythur gyflogaeth, trefniadau graddio, telerau ac amodau cyflogaeth a pholisiâu cyflogaeth berthnasol a gymeradwywyd gan y Cyngor, ac ni chânt eu pennu gennym ni.

Unigolyn Annibynnol

Bydd yr Unigolyn Annibynnol yn derbyn tâl cydnabyddiaeth ac ad-daliad treuliau yn unol â'r trefniadau dan gontract a sefydlwyd ar adeg penodi, a bydd yn adlewyrchu'r gwasanaethau a ddarperir, yr arbenigedd gofynnol a'r cyfraddau marchnad. Bydd unrhyw ffioedd a threuliau'n cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd yn unol â thelerau penodi dan gontract.

Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC

Mae'r ffioedd sy'n daladwy i Gwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC yn cael eu pennu trwy'r Cytundeb Cyfranddalwyr. Gallwn ddylanwadu ar y ffioedd sy'n daladwy i'r Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC gan ein bod yn gyfranddaliwr.

Fel cyfranddaliwr mae'n ofynnol i ni gymeradwyo cynllun busnes a chyllideb Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC. Mae hefyd yn ofynnol i ni gymeradwyo unrhyw gynnydd cyllidebol sy'n fwy na X% o'r gyllideb a gymeradwywyd.

Mae'n ofynnol i ni gymeradwyo polisi tâl cydnabyddiaeth Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC, sy'n effeithio ar y swm y gall PPC ei dalu i'w staff, gan gynnwys y swyddog gweithredol a'r bwrdd.

Ymgynghorwyr a Darparwyr Gwasanaeth

Bydd y ffioedd sy'n daladwy i ymgynghorwyr proffesiynol, ymgynghorwyr a darparwyr gwasanaeth sy'n ymgysylltu â ni, yn cael eu pennu trwy ymarferion caffael, cytundebau fframwaith neu drafodaethau dan gontract, fel bo'n gymwys. Bydd tâl cydnabyddiaeth yn cael ei nodi o fewn contractau ffurfiol, cytundebau gwasanaeth neu lythyrau penodiadau a bydd yn adlewyrchu'r gwasanaethau a ddarperir, yr arbenigedd sydd ei angen a chyfraddau'r farchnad.

Chwyddiant ac Adolygiad Cyfnodol o Ffioedd

Lle caniateir hynny, gall tâl cydnabyddiaeth, lwfansau a ffioedd fod yn destun addasiad ac adolygiad cyfnodol. Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei roi yn unol â'r ddogfennaeth llywodraethu berthnasol, trefniadau dan gontract neu ddeddfwriaeth cymwys.

Gwrthdaro Buddiannau

Rydym yn cydnabod y gall drefniadau tâl cydnabyddiaeth hefyd godi materion gwrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl neu ganfyddedig. Felly bydd holl drefniadau tâl cydnabyddiaeth a ffioedd yn destun ein Polisi Gwrthdaro Buddiannau, gofynion caffael a rheolyddion llywodraethu.

Ni ddylai unrhyw drefniant tâl cydnabyddiaeth atal unrhyw unigolyn rhag gweithredu yn annibynnol, yn ddiduedd ac er ein lles gorau ni, ei aelodau a'i gyflogwyr. Bydd penderfyniadau tâl cydnabyddiaeth yn cael eu gwneud yn dryloyw a'u cofnodi trwy brosesau cyfansoddiadol, llywodraethu neu dan gontract perthnasol.

Atodiad C: Gweithdrefn Ymddiswyddo a Diswyddo

Mae'r Polisi hwn yn nodi'r egwyddorion a threfniadau ar gyfer ymddiswyddiad neu ddiswyddo unigolion neu sefydliadau sy'n rhan o reoli'r Gronfa. Cafodd ei ddatblygu gan ystyried yr egwyddorion a nodwyd o fewn disgwyliadau Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau, fframwaith rheoleiddio Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'n trefniadau llywodraethu ni.

Mae'r Polisi'n gymwys i holl bartïon sy'n rhan o reoli'r Gronfa.

Ymddiswyddo

Gall unigolion neu sefydliadau ymddiswyddo o'u swydd trwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd neu (yn achos y Gronfa neu Swyddogion Cyngor) i'w rheolwr atebol. Bydd y cyfnod hysbysu sy'n ofynnol ar gyfer ymddiswyddiad yn cael ei bennu gan y contract neu gytundebau eraill rhwng y Cyngor a'r unigolyn neu sefydliad hwnnw.

Diswyddo

Byddwn yn ystyried diswyddo unigolyn neu sefydliad o rôl os ydynt yn:

- methu â bodloni gofynion cymhwysedd statudol sy'n gymwys i'r rôl
- methu â bodloni unrhyw safonau ffitrwydd, priodoldeb, annibyniaeth neu allu proffesiynol sy'n ofynnol
- yn destun gwrthdaro buddiannau materol nad ellir ei reoli'n briodol
- dangos methiant parhaus i gyflawni dyletswyddau'r rôl yn briodol
- methu â chydymffurfio â pholisïau llywodraethu cymwys, gofynion hyfforddi, codau ymarfer neu rwymedigaethau cyfreithiol
- methu â pharhau i gyflawni cyfrifoldebau'r rôl am gyfnod parhaus
- cael eu tynnu trwy'r prosesau penodi, cyflogaeth neu gyfansoddiadol perthnasol sy'n gymwys ar gyfer y swydd honno

Ymhob achos, byddwn yn ceisio sicrhau bod unrhyw broses diswyddo'n cael ei gyflawni mewn modd teg, gwrthrychol a chymesur, gan ystyried amgylchiadau'r achos ac unrhyw ofynion cyfreithiol neu gyfansoddiadol sy'n gymwys.

Ystyriaethau Penodol i'r Swydd

Ar gyfer aelodau sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Cronfa Bensiynau, bydd trefniadau penodi a gwaredu'n gweithredu yn unol â darpariaethau Cyfansoddiad y Cyngor.

Ar gyfer aelodau'r Bwrdd Pensiynau Lleol, bydd trefniadau penodi a gwaredu'n gweithredu yn unol â Phrotocol Bwrdd Pensiynau fel y nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Gall Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ymddiswyddo neu gael ei diswyddo yn unol â gweithdrefnau cyflogaeth y Cyngor a threfniadau cyfansoddiadol, ac os fydd hyn yn arwain

at swydd wag, bydd rôl y Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd fel arfer yn cael ei gyflawni gan unrhyw Ddirprwy penodedig, nes i'r swydd gael ei llenwi.

Gall swyddogion y Gronfa ymddiswyddo neu gael eu diswyddo yn unol â gweithdrefnau cyflogaeth y Cyngor.

Gall yr Unigolyn Annibynnol ac unrhyw ymgynghorydd neu ddarparwr gwasanaeth arall ymddiswyddo neu gael eu diswyddo ar unrhyw adeg yn unol â thelerau eu penodiad a'r darpariaethau dan gontract a sefydlwyd rhyngddynt a'r Cyngor.

Ni all Gwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC ymddiswyddo yn sgil natur statudol eu rôl. Fodd bynnag gallent gael eu diswyddo fel cronfa asedau ar gyfer y Gronfa yn ôl penderfyniad y Cyngor Llawn. Os fydd PPC yn cael eu diswyddo, bydd yn ofynnol i'r Gronfa ymuno â chronfa asedau arall.

Atodiad D: Rolau a Swyddogaethau Dirprwyedig Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd

Mae gan Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd y rolau a'r swyddogaethau penodol canlynol, gan ystyried cyngor gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ac ymgynghorwyr proffesiynol y Gronfa:

- a) Sicrhau bod Cronfa Bensiynau Clwyd yn cael ei rheoli ac y gwneir taliadau pensiwn yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gofynion Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi ar gyfer cynlluniau pensiwn yn y DU, a phob darpariaeth statudol berthnasol arall
- b) Sicrhau bod trefniadau rheoli risg cadarn ar waith
- c) Sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu gan roi sylw i ac yn ysbryd yr holl ganllawiau arfer orau statudol ac anstatudol perthnasol, mewn perthynas â rheoli Cronfa Bensiynau Clwyd
- d) Pennu nodau ac amcanion, strategaethau, polisiâu a gweithdrefnau y Gronfa Bensiynau, ar gyfer rheolaeth gyffredinol y Gronfa, gan gynnwys mewn perthynas â'r meysydd canlynol:
 - i. Llywodraethu: cymeradwyo Strategaeth Llywodraethu'r Gronfa o fewn y fframwaith a bennwyd gan Gyngor Sir y Fflint a gwneud argymhellion i Gyngor Sir y Fflint am unrhyw newidiadau i'r fframwaith hwnnw
 - ii. Cytuno ar Strategaeth Gwybodaeth a Sgiliau'r Gronfa ar gyfer holl aelodau Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd, aelodau'r Bwrdd Pensiynau a holl swyddogion y Gronfa, gan gynnwys pennu fframwaith gwybodaeth a sgiliau'r Gronfa, nodi gofynion hyfforddi, datblygu cynlluniau hyfforddi a monitro cydymffurfiaeth â'r Strategaeth
 - iii. Cytuno ar Bolisi Gwrthdaro Buddiannau'r Gronfa ar gyfer holl aelodau Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd, aelodau'r Bwrdd Pensiynau, yr Unigolyn Annibynnol a holl swyddogion y Gronfa, gan gynnwys pennu sut fydd gwrthdaro buddiannau, gwirioneddol, posibl a chanfyddedig yn cael ei ganfod, ei fonitro a'i reoli, cynnal cofrestr gwrthdaro buddiannau a monitro cydymffurfiaeth â'r Polisi
 - iv. Strategaeth Gyllido: cymeradwyo Datganiad Strategaeth Gyllido'r Gronfa, gan gynnwys monitro a rheoli atebolrwyddau'n barhaus, sicrhau bod cynlluniau cyllido yn eu lle ar gyfer pob cyflogwr yn y Gronfa, gan oruchwylio'r prisiadau teirblwydd ac interim, a gweithio gyda'r actiwari wrth bennu'r lefel briodol o gyfraniadau cyflogwyr ar gyfer pob cyflogwr
 - v. Strategaeth Fuddsoddi: cymeradwyo Datganiad Strategaeth Fuddsoddi'r Gronfa, gan gynnwys gosod amcanion buddsoddi, dyraniad asedau strategol a blaenoriaethau a dewisiadau o ran targedau buddsoddi lleol a buddsoddi cyfrifol, gan gynnwys ystyried ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol a llywodraethu corfforaethol perthnasol, a sicrhau bod y rhain wedi'u halinio gyda phroffil atebolrwydd penodol y Gronfa, parodrwydd i dderbyn risg a chanllawiau statudol perthnasol

- vi. Strategaeth Weinyddu: cymeradwyo Strategaeth Weinyddu'r Gronfa, gan bennu sut bydd y Cyngor yn gweinyddu'r Gronfa, gan gynnwys casglu taliadau, cyfrifo a thalu budd-daliadau, casglu gwybodaeth gan, a darparu gwybodaeth i aelodau a chyflogwyr y cynllun
 - vii. Strategaeth Gyfathrebu: cymeradwyo Strategaeth Gyfathrebu'r Gronfa, gan bennu dulliau o gyfathrebu gyda budd-ddeiliaid amrywiol, gan gynnwys aelodau a chyflogwyr y cynllun
 - viii. Disgresiwn: pennu sut mae disgresiynau amrywiol yr awdurdod gweinyddu yn cael eu gweithredu ar gyfer y Gronfa
- e) Monitro gweithrediad y polisiau a'r strategaethau hyn ar sail barhaus
- f) Mewn perthynas â threfniadau Cydweithio Partneriaeth Pensiwn Cymru:
Cyflawni materion a gadwyd i Gyngor Sir y Fflint fel yr amlinellir yn Atodlen 2 y Cytundeb Rhwng Awdurdodau, yn ôl y crynodeb isod oni bai eu bod angen cymeradwyaeth Cyngor Sir y Fflint fel y nodir isod:
- Penodi, terfynu neu ddisodli Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC fel y cwmni cronfa asedau ar gyfer pob Awdurdod Cyfansoddol PPC
 - Cymeradwyo Cynllun Busnes y Cydbwyllgor Llywodraethu (gan gynnwys y gyllideb a ddisgrifir yng Nghynllun Busnes y Cydbwyllgor Llywodraethu)
 - Cymeradwyo gwariant ychwanegol nad oedd wedi'i gynnwys o fewn Cynllun Busnes y Cydbwyllgor Llywodraethu, sy'n mynd tu hwnt i 30% o'r gyllideb a gymeradwywyd yn y Cynllun Busnes o fewn unrhyw Flwyddyn Ariannol.
 - Llunio, cymeradwyo neu adolygu Strategaeth Fuddsoddi Cronfa Bensiynau Clwyd
 - Addasu'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau*
- i. Cymeradwyo awdurdod gweinyddu o fewn y CPLIL i ddod yn Awdurdod Cyfansoddol o dan y Cytundeb Rhwng Awdurdodau neu ddod yn gyfranddaliwr yng Nghwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC (gyda chymeradwyaeth o ddod yn gyfranddaliwr yn PPC yn destun telerau'r Cytundeb Cyfranddalwyr)

Sylwer: *Bydd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau, sy'n newidiadau sylweddol a fydd yn effeithiol ar y Cydbwyllgor Llywodraethu angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn

Mae'r materion canlynol sy'n berthnasol i Gyngor Sir y Fflint, fel yr amlinellir yn Atodiad 2 y Cytundeb Rhwng Awdurdodau, angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn:

- Terfynu'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau
- Cymeradwyo newidiadau i'r cyfansoddiad neu gylch gorchwyl y Cydbwyllgor Llywodraethu fel y nodir yn Atodlen 4 y Cytundeb Rhwng Awdurdodau

Bydd gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd/Uwch Swyddog CPLIL y pŵer i gymeradwyo newidiadau bach neu ganlyniadol i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau

- Mae'r Cyngor wedi penderfynu bod y Bwrdd Pensiynau yn enwebu Aelod Cyfetholedig i'r Cydbwyllgor Llywodraethu
 - ii. Gwneud argymhellion ar sut fydd y Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd yn pleidleisio mewn perthynas â materion y Cydbwyllgor Llywodraethu
 - iii. Gwneud argymhellion eraill ar faterion eraill yn unol â'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau sydd wedi'u dirprwyo i'r Cadeirydd neu Is-gadeirydd yn rolau Cydbwyllgor Llywodraethu, i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd neu unrhyw swyddog enwebedig arall
- g) Mewn perthynas â threfniadau Cydweithfa Gyfun Cymru sy'n benodol i'r Cytundeb Cyfranddalwyr
- i. Argymhell i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd sut ddylai cyfranddalwyr bleidleisio yn eu rôl fel Cyfranddaliwr Cyngor Sir y Fflint
 - ii. Darparu adborth ac argymhellion i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ar faterion cyfranddalwyr eraill
 - iii. Cymeradwyo unrhyw newidiadau i gynnwyd y Cytundeb Cyfranddalwyr
 - iv. Cymeradwyo terfynu'r Cytundeb Cyfranddalwyr

Sylwer: Bydd gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd/Uwch Swyddog CPLIL y pŵer i bleidleisio ar newidiadau bach neu ganlyniadol i'r Cytundeb Cyfranddalwyr*

- h) Mewn perthynas â threfniadau Cydweithfa Gyfun Cymru sy'n benodol i'r Cytundeb Gwasanaethau Cleient
- i. Ystyried y prif gyngor a ddarperir gan Gwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC mewn perthynas â gosod Strategaeth Fuddsoddi Cronfa Bensiynau Clwyd yn ogystal ag unrhyw gyngor ategol eraill a ddarperir neu a drefnir gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd
 - ii. Monitro a darparu adborth ac argymhellion ar berfformiad PPC mewn perthynas â gweithredu Strategaeth Fuddsoddi Cronfa Bensiynau Clwyd a gofynion eraill mewn perthynas â buddsoddiadau, gan gynnwys monitro yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol cytunedig
 - iii. Cymeradwyo unrhyw newidiadau i gynnwys y Cytundeb Gwasanaethau Cleient neu derfynu'r Cytundeb Gwasanaethau Cleient

Sylwer: Bydd gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd/Uwch Swyddog CPLIL y pŵer i gymeradwyo newidiadau bach neu ganlyniadol i'r Cytundeb Gwasanaethau Cleient.*

- i) Dirprwyo pwerau i swyddogion Cyngor Sir y Fflint a'r Awdurdod Cyngor Cynnal (fel y diffinnir yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau) pan fo'r angen
- j) Enwebu swyddogion Cyngor Sir y Fflint i'r Gweithgor Swyddogion

Sylwer: Mae holl gostau mewn perthynas â Chydweithfa Gyfun Cymru (o ganlyniad i Gytundeb Rhwng Awdurdodau, Cytundeb Cyfranddalwyr, Cytundeb Gwasanaethau Cleient neu fel arall) yn cael ei godi ar Gronfa Bensiynau Clwyd, a bydd yn cael ei

ymgorffori i gyllideb Cronfa Bensiynau Clwyd sy'n cael ei gymeradwyo yn flynyddol gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd/Uwch Swyddog CPLIL a Phwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd.

- k) Cymeradwyo adroddiad blynyddol y Gronfa, gan gynnwys datganiadau ariannol y Gronfa ar ran yr awdurdod gweinyddu cyn cyhoeddi, gan ystyried cyfrifoldebau statudol y Prif Swyddog Cyllid o dan adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a chyfrifoldebau'r Uwch Swyddog CPLIL
- l) Dewis, penodi, diswyddo a monitro ymgynghorwyr proffesiynol y Gronfa
- m) Gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â chyflogwyr yn ymuno a gadael y Gronfa. Mae hyn yn cynnwys cyflogwyr sydd â hawl i ymuno â'r Gronfa, ac unrhyw ofynion sy'n ymwneud â'u mynediad, monitro parhaus a'r sail ar gyfer gadael y Gronfa
- n) Cytuno i delerau a thaliad trosglwyddiadau swmpus i mewn ac allan o'r Gronfa
- o) Ystyried canlyniadau pob Adolygiad Llywodraethu Annibynnol, cytuno ar gynllun gweithredu a monitro cynnydd wrth weithredu argymhellion o ganlyniad i adolygiadau
- p) Cytuno ar Gynlluniau Busnes a chyllidebau'r Gronfa Bensiynau a monitro cynnydd yn eu herbyn
- q) Cytuno ar ymatebion yr Awdurdod Gweinyddu i ymgynghoriadau ar faterion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a materion eraill lle gallant effeithio ar y Gronfa neu ar fudd-ddeiliaid
- r) Derbyn adroddiadau parhaus gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd mewn perthynas â swyddogaethau dirprwyol

Atodiad E: Rôl yr Uwch Swyddog CPLIL

Dyma grynodeb o gylch gwaith y rôl:

- **Arwain ar holl swyddogaethau'r CPLIL** gan gynnwys gweinyddu, cyllid, buddsoddiadau, llywodraethu a chyfathrebu
- **Sicrhau cydymffurfiaeth** â rheoliadau CPLIL, canllawiau statudol, deddfwriaeth berthnasol a Chod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau
- **Goruchwyllo darpariaeth gwasanaeth**, gan gynnwys monitro perfformiad, dangosyddion perfformiad allweddol a thaliadau pensiwn amserol a chywir
- **Datblygu a gweithredu strategaethau'r Gronfa**, megis Datganiad y Strategaeth Ariannu, Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi a'r Strategaeth Weinyddu
- **Rheoli adnoddau a chyllidebau**, gan sicrhau bod y CPLIL wedi'i staffio'n ddigonol, wedi'i strwythuro a'i ariannu i ddarparu ei amcanion
- **Rheoli risg a llywodraethu**, gan gynnwys goruchwyllo risg i gyflogwyr, rheolyddion mewnol, adolygiadau llywodraethu a fframweithiau rheoli risg
- **Sicrhau cyngor proffesiynol priodol**, ar faterion buddsoddi, caffael, llywodraethu, cyfreithiol ac actiwariad
- **Cefnogi cyrff llywodraethu effeithiol**, gan gynnwys y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau Lleol
- **Cynrychioli'r gronfa bensiynau ar lefel uwch arweinyddiaeth**, gan sicrhau bod gofynion CPLIL yn cael eu hystyried mewn penderfyniadau a chynlluniau awdurdod lleol ehangach
- **Goruchwyllo trefniadau cyfuno buddsoddiadau**, gan gynnwys monitro perfformiad y gronfa a sicrhau ei bod yn cefnogi strategaeth fuddsoddi'r awdurdod gweinyddu

Atodiad F: Cyfrifoldebau Cyrff Partneriaeth Pensiwn Cymru

Mae cyfrifoldebau'r Fforwm Cyfranddalwyr yn cynnwys:

- Dadlau, trafod a rhoi adborth i Gwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC ar faterion sy'n berthnasol i gyfranddalwyr
- Gwneud cais am wybodaeth ariannol gan Gwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC sy'n angenrheidiol i hysbysu pob cronfa sy'n cymryd rhan ar sut mae busnes PPC yn perfformio
- Gwneud cais i Gwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC am wybodaeth yn ymwneud â gweithrediadau a rheolaeth PPC ac ystyried y rhain
- Lle bynnag bosibl, cyflawni ymgynghoriad ystyrlon gyda'r Cydbwyllgor Llywodraethu, cyn i'r cronfeydd sy'n cymryd rhan gymeradwyo neu adolygu'r cynllun busnes a chyllideb ar gyfer Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC
- Lle bynnag bosibl, cyflawni ymgynghoriad ystyrlon gyda'r Cydbwyllgor Llywodraethu ar Faterion a Gedwir yn ôl

Mae cyfrifoldebau'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn cynnwys:

- Gwneud argymhellion i'r Gronfa ar berfformiad, o safbwynt cleient cyffredin, Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol cyffredin neu gyson ar draws y cronfeydd sy'n cymryd rhan
- Monitro perfformiad Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol cyffredin neu gyson ar draws y cronfeydd sy'n cymryd rhan
- O bryd i'w gilydd adolygu polisïau mewn perthynas â materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (gan gynnwys buddsoddi cyfrifol), buddsoddiad lleol a rheoli gwrthdaro buddiannau, a lle bo'n briodol gwneud argymhellion i'r cronfeydd sy'n cymryd rhan ynghylch unrhyw newidiadau y bernir eu bod yn angenrheidiol.
- Cymhwyso unrhyw brosesau neu bolisïau sydd wedi'u neilltuo iddo, o fewn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau
- Sicrhau bod y Gweithgor Swyddogion yn gweithredu o fewn ei gylch gwaith
- Darparu unrhyw ddadansoddiad neu sylwebaeth i'r cronfeydd sy'n cymryd rhan ar gyfrifon blynyddol perthnasol y Cydbwyllgor Llywodraethu
- Monitro gweithrediad ac effeithiolrwydd polisïau'r Cydbwyllgor Llywodraethu a chychwyn adolygiadau o'r rhain lle bo angen
- Darpariaeth a monitro parhaus yn erbyn amcanion cyfun y cronfeydd sy'n cymryd rhan, y Cynllun Busnes a chyllidebau
- Cymeradwyo ymatebion gan y cronfeydd sy'n cymryd rhan mewn perthynas ag ymgynghoriadau neu faterion eraill a ystyrir yn briodol
- Gwneud argymhellion a darparu adborth (fel bo'n gymwys) i Gadeirydd y Fforwm Cyfranddalwyr mewn perthynas â materion y mae'r Fforwm Cyfranddalwyr yn ymgynghori arnynt gyda'r Cydbwyllgor Llywodraethu
- Ceisio cyngor gan gynghorwyr proffesiynol ac awdurdodedig a rheoledig lle bo angen
- Cytuno ar y Cynllun Busnes i'w gyflwyno i'r cronfeydd sy'n cymryd rhan ar gyfer cymeradwyaeth

- Adrodd i'r cronfeydd sy'n cymryd rhan yn chwarterol (ac ar unrhyw adeg arall pan fo'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn ystyried ei fod yn angenrheidiol) ar y materion o fewn eu cylch gorchwyl gan gynnwys monitro'r Cynllun Busnes yn barhaus
- Cytuno ar feini prawf ar gyfer gwerthuso cynigion neu dendrau ar gyfer caffael darparwr neu ymgynghorwr i'r Cydbwyllgor Llywodraethu

Atodiad G: Gofynion Deddfwriaethol

Wrth baratoi'r Strategaeth hon, rydym wedi ystyried y Rheoliadau, Canllawiau Statudol, Codau Ymarfer a Chanllawiau canlynol.

Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013

Rhif	Geiriad (ar gael yn Saesneg yn unig)
53A(1)	Every administering authority must appoint an officer ("the LGPS senior officer") who has senior responsibility across all pension functions of the authority, in accordance with guidance issued by the Secretary of State from time to time
53A(5)	Where an administering authority delegates its functions, or part of its functions, under these Regulations or section 101(1)(a) of the Local Government Act 1972 (arrangements for discharge of functions by local authorities) to a committee, sub-committee or an officer, it must appoint a person who is independent of both the Secretary of State and the administering authority ("an independent person") to support the discharge of those functions in relation to the Scheme, including in respect of investment strategy, governance and administration.
55A(1)	An administering authority must prepare: (a) a governance strategy, (b) a training strategy, and (c) a conflicts of interest policy.
55A(2)	A governance strategy is a document setting out: (a) whether the authority delegates its functions, or part of its functions, under these Regulations to a committee, a sub-committee or the LGPS senior officer of the authority, (b) if the administering authority does so: (i) the terms, structure, and operational procedures of the delegation, including the basis on which substitutes may be permitted to attend or act, (ii) the frequency of any committee or sub-committee meetings, (iii) whether such a committee or sub-committee includes representatives of Scheme employers or members and: (aa) if so, whether those representatives have voting rights, or (bb) if there are no such representatives, or if any representatives do not have voting rights, how the authority will ensure that the views of Scheme employers and members are represented in the governance of the fund, and (iv) how the authority will ensure that it has appointed an independent person in accordance with regulation 53A(5) (appointments that must be made by administering authorities),

Rhif	Geiriad (ar gael yn Saesneg yn unig)
	(c) the extent to which a delegation, or the absence of a delegation, complies with guidance given by the Secretary of State and, to the extent that it does not so comply, the reasons for not complying, (d) an explanation of how the governance structure and any delegation arrangements adopted by the administering authority are designed to secure the effective and efficient administration, governance and investment of the Scheme for Scheme employers, members and other stakeholders, and (e) details of the terms, structure, and operational procedures relating to the local pension board established under regulation 106 (local pension boards: establishment).
55A(8)	Before preparing or updating a governance strategy, training strategy, or conflicts of interest policy, an administering authority must consult such persons as it considers appropriate.
106(1)	Each administering authority shall no later than 1st April 2015 establish a pension board ("a local pension board") responsible for assisting it: (a) to secure compliance with: (i) these Regulations, (ii) any other legislation relating to the governance and administration of the Scheme and any connected scheme, and (iii) any requirements imposed by the Pensions Regulator in relation to the Scheme and any connected scheme; and (b) to ensure the effective and efficient governance and administration of the Scheme and any connected scheme.

Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Cyfuno, Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2026

Rhif	Geiriad (ar gael yn Saesneg yn unig)
7(1)	On and after the day on which these Regulations come into force, an authority must participate in an asset pool company with a view to that company managing the funds or other assets of the Scheme for which that authority is responsible.
7(1)	Subject to paragraph (2), before managing any funds or other assets of the Scheme for which an authority is responsible, any relevant asset pool company must be authorised as: (a) a full-scope UK AIFM, or (b) an investment firm with its head office in the United Kingdom (or, if the firm has a registered office, with its registered office in the United Kingdom).
10(1)	The relevant asset pool company must provide an authority with proper advice (whether directly or indirectly) about its investment strategy.

Rhif	Geiriad (ar gael yn Saesneg yn unig)
17	Subject to regulation 24, within the period of three months from the date on which it first participates in an asset pool company under regulation 7(1), an authority must ensure that the funds or other assets of the Scheme for which that authority is responsible (other than money needed for making payments under the Scheme from the pension fund maintained by the authority) are: (a) held on behalf of the authority by the relevant asset pool company, and (b) properly managed by that company with a view to implementing the authority's investment strategy.

Canllawiau Statudol

Rydym yn disgwyl Canllawiau Statudol pellach ar y Strategaeth Lywodraethu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ond ar ddyddiad cyhoeddi'r Strategaeth hon nid ydym wedi ei dderbyn.

Ar 29 Mehefin 2026, cyhoeddodd y weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol y Canllawiau Statudol **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol: llywodraethu cronfa**. (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Dylid darllen y canllawiau ar y cyd â'r Rheoliadau ac mae wedi'i strwythuro o amgylch y meysydd canlynol:

1. Cyflwyniad
2. Gwybodaeth a Dealltwriaeth
3. Uwch Swyddog CPLIL
4. Unigolyn annibynnol
5. Adolygiadau Llywodraethu Annibynnol

Y meysydd sydd fwyaf perthnasol i'r Strategaeth hon yw'r adrannau Uwch Swyddog CPLIL ac Unigolyn Annibynnol.

Mae Adran 3 y canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod gweinyddu benodi un uwch swyddog gyda chyfrifoldebau ar draws holl swyddogaethau pensiwn. Nod y rôl yw darparu atebolrwydd clir ar gyfer rheolaeth ac ariannu cyffredinol y gronfa bensiynau.

Mae'r canllawiau'n egluro:

- Bod yr Uwch Swyddog CPLIL yn gyfrifol am sicrhau bod y gronfa'n cael ei rheoli'n briodol o ran gweinyddu, buddsoddi a llywodraethu
- Dylai'r rôl gael digon o statws, capasiti a mynediad at y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ryddhau'r cyfrifoldebau hynny'n effeithiol
- Bwriad y rôl yw gwella atebolrwydd a sicrhau bod unigolyn dynodedig yn gyfrifol am gydlynu holl weithgareddau'n ymwneud â phensiynau o fewn yr awdurdod
- Ar gyfer awdurdodau lleol, ni all yr Uwch Swyddog CPLIL hefyd fod yn Swyddog Adran 151, Swyddog Monitro nac y Prif Weithredwr, gan rannu'r dyletswyddau

- Mae'r canllawiau'n pwysleisio nad yw'r penodiad yn trosglwyddo cyfrifoldeb cyfreithiol o'r awdurdod gweinyddu na swyddogion statudol eraill

Mae Adran 4 y canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddu sy'n dirprwyo swyddogaethau CPLIL i benodi Unigolyn Annibynnol i gefnogi gwneud penderfyniadau a darparu her.

Mae'r canllawiau'n egluro:

- Rhaid i'r Unigolyn Annibynnol fod yn wirioneddol annibynnol o'r awdurdod gweinyddu a llywodraeth ganolog
- Eu rôl yw darparu cefnogaeth, craffu, her a safbwynt allanol ar faterion gweinyddu, llywodraethu a buddsoddi'r gronfa
- Bwriad yr apwyntiad yw gwella ansawdd, cryfhau penderfyniadau a lleihau'r risg o feddylfryd grŵp
- Nid yw'r Unigolyn Annibynnol yn gweithio yn lle cynghorwyr proffesiynol ac nid yw'n cymryd y cyfrifoldeb o wneud penderfyniadau oddi wrth y pwyllgor na swyddogion
- Rhaid i awdurdodau sicrhau bod gan yr unigolyn ddigon o brofiad ac arbenigedd i ddarparu cefnogaeth a her ystyrlon



www.cronfabensiynauclywd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.